**Argymhellion y Bwrdd Cyllideb - Cyfalaf** **Atodiad 2**

Penderfynodd y Bwrdd Cyllideb - Cyfalaf wahodd cynigion yn unol â'r dyraniadau bloc y cytunwyd arnynt eisoes ar gyfer gwasanaethau. Gofynnwyd i wasanaethau ddarparu achos busnes i gefnogi eu cynigion. Fodd bynnag, cafodd y gofyniad i Benaethiaid Gwasanaeth i gyflwyno cynigion i'r Bwrdd Cyllideb - Cyfalaf ei hepgor.

Cafodd pob cynnig ei gyflwyno gyda chymeradwyaeth y Pennaeth Gwasanaeth perthnasol. Ceir manylion am y dyraniadau arfaethedig yn Atodiad 1 ac mae crynodeb ohonynt fel a ganlyn:

- Mae dyraniad o £240,000 yn cael ei argymell ar gyfer Mân Addasiadau, Offer Cymunedol a Theleofal. Caiff y cyllid hwn ei dargedu at alluogi'r henoed a'r anabl i aros yn eu cartrefi eu hunain.

- Cynigir dyrannu £1.5 miliwn i gefnogi Cymorth Tai Sector Preifat. Bydd yr arian yn cael ei ddefnyddio yn bennaf ar ddarparu Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl.

- Mae'r cynigion cyfalaf cynnal a chadw ysgolion ac adeiladau nad ydynt yn ysgolion yn cynnwys darpariaeth ar gyfer gwaith cynnal a chadw hanfodol fel Cael Gwared ar Asbestos, Gwaith Asesu Risg Tân, Cydraddoldeb ac ati. Argymhellir bod £4.006 miliwn yn cael ei ddyrannu i Waith Cyfalaf Cynnal a Chadw Ysgolion. Hefyd cynigir dyrannu £1.368 miliwn i waith cyfalaf cynnal a chadw adeiladau nad ydynt yn ysgolion. Argymhellir ymhellach bod y Penaethiaid Gwasanaeth priodol yn pennu yr union ddyraniadau i'r gwaith sydd ei angen, yn nhrefn blaenoriaeth. Mae'r dyraniadau llawn a gynigir yn bodloni'r gwaith sydd â'r flaenoriaeth fwyaf a nodwyd ar draws yr ysgolion ac adeiladau nad ydynt yn ysgolion.

- Ar 31 Ionawr cymeradwyodd y Cyngor £235,000 ar gyfer Priffyrdd fel rhan o Fuddsoddiad mewn Blaenoriaethau 2023/24. Bydd hyn yn caniatáu gwariant cyfalaf o £4.000 miliwn.

- Yn ogystal â hyn, bwriedir dyrannu dyraniad bloc o £710,000 ar gyfer atgyweiriadau strwythurol ac atgyweiriadau eraill, gan gynnwys cynnal a chadw priffyrdd, goleuadau stryd a phontydd. Hefyd wedi'i gynnwys o fewn yr argymhelliad hwn mae £470,000 pellach ar gyfer atgyweirio strwythurau pont. Dyma seithfed flwyddyn Prosiect Ôl-groniad Strwythur Priffyrdd deng mlynedd arfaethedig.

- Argymhellir dyraniad o £324,000 i gynnal gwelliannau o ran diogelwch ar y ffyrdd.

- Argymhellir dyraniad o £250,000 ar gyfer ailosod colofnau golau sy'n anniogel yn strwythurol.

- Mae’r Bwrdd Cyllideb - Cyfalaf yn argymell cynnal y dyraniad a neilltuwyd ar gyfer unrhyw argyfyngau annisgwyl, sef £0.5 miliwn, yn unol â 2022/23.